Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
National Assembly for Wales | Research Service

Deiseb P-05-916: Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru

Cyfeirnod: RS19/10865-6

Rhif y ddeiseb: P-05-916

Teitl y ddeiseb: Cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm yn lladd-dai Cymru

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol i ddiogelu lles anifeiliaid fferm adeg eu lladd yng Nghymru.

Diben Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 yw diogelu anifeiliaid adeg eu lladd. Er mwyn gwneud hynny, rhaid i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) eu cymhwyso a'u gorfodi'n gywir, a rhaid bod digon o gyllid iddi allu cyflawni ei dyletswyddau o dan y Rheoliadau.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu dim ond £20,000 y flwyddyn i'r ASB ddiogelu lles anifeiliaid adeg eu lladd ar draws o leiaf 23 o ladd-dai yng Nghymru, sydd gyda'i gilydd yn lladd degau o filiynau o anifeiliaid bob blwyddyn. Mae'r swm hwn yn druenus ac yn gwbl annigonol i dalu am yr holl waith gofynnol, gan gynnwys gwaith effeithiol i fonitro arferion lles, ymchwiliadau, gorfodaeth, cyngor cyfreithiol, a'r staff i wneud hynny. Mae faint sy'n cael ei ddarparu yn llawer is na'r hyn y mae'r ASB ei hun wedi dweud (mewn papurau bwrdd) y mae ei angen arni i gyflawni ei dyletswyddau mewn perthynas â lles anifeiliaid adeg eu lladd.

Daw cryn dystiolaeth o ymchwiliadau cudd mewn lladd-dai mewn rhannau eraill o'r DU o dorri rheoliadau lles yn rheolaidd, a bod llawer o anifeiliaid yn dioddef camdriniaeth. Nid oes rheswm dros gredu nad yw'r risgiau hyn hefyd yn codi mewn lladd-dai yng Nghymru.

Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl bod rheoliadau lles yn drylwyr ac yn cael eu cymhwyso mewn ffordd gyson. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ar fyrder ei chyllid i'r ASB at y diben hwn, a chynyddu'n sylweddol y cyllid i ddiogelu lles anifeiliaid adeg eu lladd yn ddi-oed.

1.Cefndir

Mae ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014*** (rheoliadau 2014) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi ***Rheoliad 1099/2009*** yr UE yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau gael tystysgrif cymhwysedd neu dystysgrif cymhwysedd dros dro cyn lladd anifeiliaid neu wneud gweithrediadau cysylltiedig mewn lladd-dy. Maent hefyd yn amlinellu rheolau cenedlaethol i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu hamddiffyn yn fwy helaeth adeg eu lladd.

Mae'r **Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)** yn adran annibynnol o'r Llywodraeth sy'n gweithio ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i amddiffyn iechyd y cyhoedd a diddordebau ehangach defnyddwyr mewn bwyd. O dan reoliadau 2014, mae'r ASB yn awdurdod cymwys ac mae ganddi gyfrifoldebau sy'n cynnwys gweithredu os bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio.

Mae'r ASB yn cyflwyno polisïau lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig cymeradwy fel rhan o **reolaethau swyddogol** ar ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae **llawlyfr ar gyfer rheolaethau swyddogol** (Cyfrol 1, Pennod 2.3) yn disgrifio ymhellach dasgau, cyfrifoldebau a dyletswyddau staff yr ASB mewn perthynas â lles anifeiliaid mewn lladd-dai. Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb polisi cyffredinol am les anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae gweithgaredd darparu'r ASB yn dod o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA), fel y disgrifir yn y **concordat** rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru. O dan y SLA, mae'r ASB yn cynnal gweithgareddau gan gynnwys archwiliadau lles anifeiliaid, archwiliadau, gorfodi, trwyddedu ac addysg.

2. Diffyg cydymffurfio â rheoliadau lles anifeiliaid

Mae'r ASB yn cyhoeddi **adroddiadau** ar ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau lles anifeiliaid mewn lladd-dai, ar gyfer Cymru a Lloegr ar y cyd. Mae'r **adroddiad blynyddol ar les anifeiliaid i fwrdd yr ASB** (PDF 558KB) hefyd yn darparu manylion am ddiffyg cydymffurfio. Mae data a gyflwynwyd yn adroddiad blynyddol 2019 yn dangos bod 386 o achosion o dorri lles anifeiliaid mewn lladd-dai, yng Nghymru a Lloegr, ar gyfer y cyfnod adrodd 2018-2019. Mae'r ffigur hwn ond yn cynrychioli'r achosion hynny o dorri rheolau lefel 3 neu lefel 4 (lle toriad lefel 3 yw diffyg cydymffurfio mawr – risg bosibl i les, a lefel 4 yw diffyg cydymffurfio critigol – risg ddifrifol a buan i les anifeiliaid).

Ym mis Medi 2019, cafodd lladd-dy Farmers Fresh yn Wrecsam lawer o **sylw yn y cyfryngau** yn dilyn ymchwiliad gan y grŵp hawliau anifeiliaid **Animal Aid** i les anifeiliaid. **Dywed y BBC** fod ymchwiliad troseddol ar y gweill.

3.Ariannu'r ASB

Mae diweddariadau blynyddol ar les anifeiliaid i Fwrdd yr ASB (**Medi 2017** a **Medi 2018**) yn cyfeirio at gynnydd sylweddol mewn gweithgaredd gorfodi ar les anifeiliaid a briodolir i weithredu rheoliadau 2014 a chyflwyno rhaglen lles anifeiliaid "Deter, Prevent, Detect, Enforce" yr ASB yn 2016.

Roedd y papur bwrdd ym mis Medi 2017 ar les blynyddol yn nodi (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> ...under the provisions of the Service Level Agreement with Defra and Welsh Government, FSA received a contribution of **c.£40k for animal welfare activities in 2016/17**. In 2017/18, this contribution is expected to rise to c.£50k. Although this is an increase on 2016/17, it **represents only a small proportion of the overall cost of delivering the Government's animal welfare policy in slaughterhouses.**

Ailadroddodd papur Medi 2018 y pryderon hyn (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> ...in 2017/18 FSA received a contribution of c£50k which **does not meet the true costs of welfare official controls which we conservatively estimate to be in excess of £1m**, only a small proportion of which is recovered from industry. During the period we have continued our negotiations with Defra and WG for increased contributions and we are pleased to report that **for 2018/19 Defra and WG will contribute c£170k.** The increased amounts will go towards CCTV implementation and enforcement costs (**Defra contribution only**), annual welfare themed audit and OVs time for recording non-compliances, referrals for investigation and general welfare enforcement in slaughterhouses. The uplift does not cover any FSA legal team costs for appeals and investigations nor the welfare portion of inspection costs and these are areas we will be discussing with Defra and WG for the financial period 2019/20.

Er bod y ffigurau a nodwyd ym mhapurau bwrdd yr ASB yn cynrychioli cyfraniad ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Defra, ac ymateb i gais rhyddid gwybodaeth (257 KB), a rannwyd yn flaenorol gyda'r Pwyllgor hwn, yn darparu gwybodaeth am gyfraniadau Llywodraeth Cymru yn unig. Nododd fod y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol i'r ASB ar gyfer rheolaethau lles yn gyfanswm o £33,627.77 ar gyfer y cyfnod o dair blynedd yn 2015-2017. Nododd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu £20,187.00 i'r ASB mewn cyllid ar gyfer 2018/19.

Nid yw'r **papur blynyddol ar les anifeiliaid ar gyfer Medi 2019** yn rhoi syniad o'r cyfraniad ar gyfer 2019/20. Ar ben hynny, er bod **llinellau gwariant cyllideb ddrafft 2019-2020** Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriadau ar wahân at les anifeiliaid a'r ASB, nid yw cyfanswm y gronfa a gyllidebwyd ar gyfer cyfraniad

Llywodraeth Cymru i'r modd y mae'r ASB yn darparu gwasanaethau lles anifeiliaid mewn lladd-dai yn glir.

4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 22 Mawrth 2018, **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru becyn cynllun Buddsoddi Busnes Bwyd newydd gwerth £1.1 miliwn o gymorth grant ar gyfer lladd-dai bach a chanolig yng Nghymru.

Mae **gwefan** Llywodraeth Cymru yn nodi bod y cyllid hwn:

> ...yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf ac yn darparu cyngor ar les anifeiliaid, gwella busnes a materion technegol. Bydd yn talu am seilwaith a chyfleusterau sy'n hyrwyddo lles a hefyd am osod a diweddaru systemau monitro teledu cylch cyfyng.

Dywedodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd

> Bydd y grant hefyd yn helpu'r busnesau hyn i osod a gwella systemau monitro teledu cylch cyfyng. Rwyf am helpu busnesau i roi systemau ar waith tra bo Lloegr yn llunio deddfwriaeth ar gyfer systemau teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai. Rwyf am i ladd-dai Cymru fod yn gwbl barod wrth imi barhau i archwilio cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth yn y tymor hir.

Rhoddodd Lesley Griffiths ddiweddariad ar y cynllun mewn llythyr at y Pwyllgor hwn ar 22 Hydref 2019. Amlygodd y llythyr fod datganiadau o ddiddordeb "bellach yn symud i geisiadau llawn, gyda dyddiad cau ar gyfer y rhain ym mis Ionawr 2020". Pwysleisiodd y Gweinidog hefyd y bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd dderbyn cyngor lles arbenigol ar symud a rheoli anifeiliaid yn eu safleoedd.

5. Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 3 Gorffennaf 2018, clywodd y Pwyllgor hwn **dystiolaeth** gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, ar ddeiseb flaenorol (**P-04-433: teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai**). Testun y ddeiseb oedd:

> Rydym yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn orfodol i osod teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai er mwyn helpu milfeddygon i reoli a monitro yn well, darparu deunydd ffilm er budd hyfforddiant ac ail-hyfforddi, atal camdrin anifeiliaid, fel y ffilmiwyd gan Animal Aid, ac fel tystiolaeth ar gyfer erlyniad mewn achosion o gamdrin.

Dywedodd Lesley Griffiths wrth y Pwyllgor ei bod hi'n dal i ystyried a ddylid cyflwyno deddfwriaeth ond mai ei blaenoriaeth ar hyn o bryd yw cyflwyno'r cynllun grant. Dywedodd hefyd:

> We've got incredibly high animal welfare standards. I have not received any complaints about any of the abattoirs. I've had a bit of speculation, but what I've always said is, 'Come back to me with evidence and we'll look into this', and I haven't had that. So, I think it's better to work in partnership with the sector. A couple of people had raised with me that funding, as is often the case, was a barrier, so take that barrier away and, as I say, we'll see how many take up the scheme when we open the window before the end of this term.

Ar adeg ysgrifennu, nid oedd teledu cylch cyfyng yn orfodol mewn lladd-dai yng Nghymru, er, **yn ôl yr ASB** (68KB) mae tua 99% o anifeiliaid sy'n cael eu lladd yng Nghymru yn cael eu lladd mewn adeilad gyda rhyw fath o deledu cylch cyfyng. Daeth rheoliadau ar **ddefnydd gorfodol o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai yn Lloegr** i rym ym mis Mai 2018. Yn gynharach eleni, **cyhoeddodd** Llywodraeth yr Alban y byddai hefyd yn gwneud teledu cylch cyfyng yn orfodol ar gyfer lladd-dai yn yr Alban.

Lles mewn Lladd-dai Cymru **oedd canolbwynt dadl** yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2018. Dywedodd Gareth Bennett AC:

> Nid oes gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng ar waith mewn 14 o ladd-dai yng Nghymru, er bod gan y rhan fwyaf o'r lladd-dai mwy o faint systemau o'r fath...yn ôl ceisiadau rhyddid gwybodaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ni chedwir data ar leoliad na chyrhaeddiad y camerâu sy'n weithredol mewn lladd-dai na nifer yr anifeiliaid a laddwyd heb fod gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng ar waith. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn amcangyfrif bod 2 filiwn o adar a bron 400,000 o ddefaid, moch, a gwartheg yn cael eu lladd heb wyliadwriaeth teledu cylch cyfyng bob blwyddyn yng Nghymru. Nododd y gymdeithas fod y risg bosibl o niwed i les yr anifeiliaid hyn yn cynyddu os nad oes teledu cylch cyfyng yn weithredol.

Mewn ymateb, dywedodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd

> Fel y dywedais sawl gwaith... buaswn yn ystyried deddfu i sicrhau bod teledu cylch cyfyng ar waith ym mhob lladd-dy yng Nghymru. Fodd bynnag, byddaf yn gweithio yn gyntaf gyda gweithredwyr busnesau bwyd mewn perthynas gefnogol i gyflawni'r un amcan.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.